



## HELPWCH NI I LEIHOU RISG COVID-19

Er mwyn dod â BlasCymru / TasteWales 2021 i chi, rydym wedi wynebu heriau eithriadol, ond mae hyn wedi bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i leihau'r risgiau sy'n deillio o Covid-19.

Mae coronafirws yn parhau i fod yn risg iechyd difrifol, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y digwyddiad yn ddiogel rhag Covid i ddiogelu pawb sy'n mynychu.

Felly, rydym wedi gweithredu rhagofalon i helpu i leihau unrhyw risg bosibl, fel y gallwn gynnal BlasCymru / TasteWales a'i gynnal mor ddiogel â phosibl. Gwyddom pa mor bwysig yw diogelu ein diwydiant bwyd a diod, ein prynwyr manwerthu a'n cynrychiolwyr.

Rydym angen eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth ar gyfer ein dull ataliol.

**Dyma'r canllaw cyfredol. Rydym yn argymhell eich bod yn gwirio o bryd i'w gilydd am ddiweddariadau. Nodwch fod Cymru a Lloegr yn gweithredu gwahanol reolau Covid.**

## BETH SYDD ANGEN I MI WNEUD?

1. Er mwyn mynychu BlasCymru / TasteWales 2021, mae angen i chi ddangos eich **statws Covid** wrth gyrraedd a chofrestru ar gyfer y digwyddiad.
2. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu na allwn ganiatáu mynediad i'r digwyddiad. Ni allwn ddarparu ad-daliad yn yr achos hwn.
3. Awgrymir bod ymwelwyr sy'n mynychu'r digwyddiad ar y ddau ddiwrnod (27 a 28 Hydref) yn **cymryd Prawf Llif Unffordd (LFT) cyn mynd i mewn i'r digwyddiad ar yr ail ddiwrnod** i'n helpu i wneud cymaint â phosibl i amddiffyn cyfranogwyr a'n diwydiant yng Nghymru. **Gellir archebu LFTs am ddim ar-lein i'w danfon i'r cartref neu eu casglu o fferyllfeydd.** [Cael profion COVID-19 llif unffordd cyflym os nad oes gennych symptomau | GOV.CYMRU](#). Byddwn hefyd yn darparu pecynnau LFT am ddim yn y digwyddiad.

## SUT YDW I'N DANGOS FY STATWS COVID?

Dilynwch y ddolen yma ar gyfer y manylion llawn: [Pàs COVID: canllawiau ar gyfer busnesau a digwyddiadau \[HTML\] | GOV.CYMRU](#)

Gellir dangos eich statws COVID yn y ffyrdd canlynol:

- trwy **Bàs COVID** digidol y **GIG** – gall pobl sydd wedi'u brechu'n llawn yng Nghymru eisoes lawrlwytho tystysgrif sy'n profi eu statws. Mae Pàs COVID y GIG yn caniatáu i unigolion arddangos eu cofnodion brechu coronafirws (COVID-19) mewn ffordd ddiogel [Pàs COVID y GIG: profi eich statws brechu | GOV.CYMRU](#);



- tystysgrif brechu ar bapur – nid yw hyn yn cynnwys cardiau brechu (gweler atodiad 2 am enghreifftiau o dystysgrifau papur y gellir eu derbyn); a
- cadarnhad o ganlyniad prawf negyddol trwy e-bost neu neges destun a ddarperir gan gov.uk.
- cadarnhad o brawf positif o fewn y 6 mis diwethaf a ddilynwyd gan y cyfnod ynysu priodol h.y., 10 diwrnod) – gellir gweld hyn ym Mhàs COVID y GIG neu drwy neges destun neu e-bost

## BETH AM BOBL O'R TU ALLAN I'R DU?

Dilynwch y canllawiau yn y ddolen: [Pàs COVID: canllawiau ar gyfer busnesau a digwyddiadau \[HTML\] | GOV.CYMRU](#)

## Hunan-ynysu – peidiwch â theithio i BlasCymru / TasteWales os gwelwch yn dda.

Os oes angen i chi hunan-ynysu, peidiwch â theithio i BlasCymru / TasteWales 2021. Er enghraifft, os yw gwasanaeth Profi ac Olrhain y GIG wedi gofyn i chi hunan-ynysu; os yw'n ofynnol i chi ynysu ar ôl teithio; neu oherwydd eich bod yn arddangos unrhyw symptomau COVID-19.

Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r symptomau hyn yn ysgafn. Ni ddylech deithio i BlasCymru / TasteWales os oes gennych un neu fwy o'r symptomau hyn, a dylech ddilyn y canllawiau cyhoeddus ar brofi a hunan-ynysu. Am ragor o wybodaeth:

<https://gov.wales/check-your-symptoms-see-if-you-need-coronavirus-medical-help>

## YN Y DIGWYDDIAD

Rydym yn anelu at gadw pawb mor ddiogel ag y gallwn i sicrhau digwyddiad plaserus a chynhyrchiol i bawb sy'n cymryd rhan. Byddwn yn dilyn rhagofalon gorfodol yn unol â Chanllawiau Covid yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'r rhain yma:

<https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/>

Rydym yn awyddus i wneud cymaint â phosibl i amddiffyn busnesau bwyd a diod, manwerthwyr a phrynwyr sy'n mynychu yn ystod yr amser heriol hwn. Felly, byddwn yn gweithredu'r mesurau canlynol:

- **Pellter cymdeithasol** lle bynnag y bo hynny'n ymarferol
- **Traffig unffordd** lle bynnag y bo hynny'n ymarferol
- **Masgiau wyneb y tu mewn** ac eithrio lleoliadau lletygarwch a lle rydym wedi gosod sgriniau Perspex (e.e. yn y Broceriaeth)
- **Gorsafoedd glanweithio dwylo** drwyddi draw
- **Efallai y byddwn yn gweithredu mesurau ychwanegol** fel sy'n briodol i'r digwyddiad, er enghraifft ailgynnal profion llif unffordd ar bob diwrnod o'r digwyddiad
- **Di-bapur a digyswllt** – osgoi ysgwyd llaw a chyswllt arall, cyfnewid cardiau, pamffledi ac ati fel rhagofal ychwanegol



- Rydym yn argymhell yn gryf **bod ymwelwyr sy'n mynychu'r ddau ddiwrnod yn cymryd LFT cyn dod i mewn i'r digwyddiad ar yr ail ddiwrnod.** Gellir archebu LFTs am ddim ar-lein i'w danfon gartref neu eu casglu o fferyllfeydd. [Cael profion COVID-19 llif unffordd cyflym os nad oes gennych symptomau | GOV.CYMRU](#). Byddwn hefyd yn darparu pecynnau LFT am ddim yn y digwyddiad.

Ar hyn o bryd (ar 14 Hydref 2021) mae Cymru i gyd ar Lefel Rhybudd 0. Sylwch y gallai hyn newid a byddwn yn diweddarau'r wybodaeth hon. Gellir gweld canllawiau penodol sy'n berthnasol i Lefel Rhybudd 0 yma: <https://gov.wales/alert-level-0>

## POLISI MYNEDIAD CYFFREDINOL

- Mae BlasCymru / TasteWales 2021 yn ddigwyddiad masnach yn unig ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru ac sy'n gysylltiedig ag ef. Gall myfyrwyr ar gysiau bwyd a chysylltiedig sydd wedi cofrestru ymlaen llaw fynychu'r sioe fyw.
- Ymwelwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant Bwyd a Diod neu sydd â rhywfaint o gysylltiad ag ef.
- Mynychu sesiynau rhithwir a noddir a chytuno i arddangoswyr sganio bathodynau neu mewn sesiynau cynhadledd: Trwy gytuno i sganio eu bathodyn, mae ymwelwyr yn cytuno i dderbyn cyfathrebiadau gan arddangoswyr, noddwyr a Llywodraeth Cymru a'i Chontractwyr.
- Nid ydym yn caniatáu canfasio na dosbarthu taflenni yn BlasCymru / TasteWales. Efallai y gofynnir i ymwelwyr sy'n canfasio neu'n dosbarthu taflenni adael y digwyddiad.
- Gall gwasg achrededig wneud cais am fathodyn i'r wasg. Cyhoeddir bathodynau i'r wasg unwaith y bydd y cais wedi'i wirio. Rydym yn cadw'r hawl i benderfynu pwy sy'n cael bathodyn i'r wasg.
- Bydd ffotograffwyr digwyddiadau swyddogol yn tynnu lluniau yn BlasCymru / TasteWales 2021. Bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i ddefnyddio ffotograffau o'r fath, a all gynnwys delweddau o ymwelwyr, at ddibenion marchnata.
- Bydd fideograffwyr digwyddiadau swyddogol yn ffilmio yn BlasCymru / TasteWales 2021. Bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i ddefnyddio'r holl gynnwys fideo, a all gynnwys lluniau o ymwelwyr, at ddibenion marchnata.
- Mae'r Trefnyddion yn cadw'r hawl i wrthod mynediad, eithrio neu dynnu unrhyw un o'r digwyddiad.
- Trwy gofrestru i fynychu BlasCymru / TasteWales 2021, rydych chi'n cytuno i'r polisi fel y nodir uchod.